**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Mark Drakeford AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

2 Rhagfyr 2014

Annwyl Mark,

**Sesiwn graffu gyffredinol gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Ar 26 Tachwedd 2014, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn graffu gyffredinol gyda Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Trafodwyd nifer o feysydd yn ystod y sesiwn, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Comisiynydd, ac adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal yng Nghymru, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal yng Nghymru ac, o ystyried y cysylltiadau clir rhwng yr adolygiad a gwaith blaenorol y Pwyllgor yn y maes hwn, roedd diddordeb arbennig gan yr Aelodau mewn clywed gan y Comisiynydd sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch i fynegi ei gefnogaeth i adolygiad ac argymhellion y Comisiynydd, a gofyn am wybodaeth ynghylch eich ymateb. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech ddarparu copi o'ch ymateb i'r Pwyllgor, gan gynnwys amcan o'r amserlen ar gyfer gweithredu ar bob argymhelliad.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 5 Ionawr 2015. Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

David F. Rees.

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
CC: Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Twitter / Trydar: @iechydsenedd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh